**Cofnodion o gyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 19 Ionawr 2021 drwy Zoom.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Phillip Roberts (Cadeirydd), Avril Jones (Is-Gadeirydd), Haf Williams, Meirwen Lloyd, Dylan Jones, Goronwy Hughes, Cemlyn Jones, Gwion Llwyd, Hefin Jones, Beca Brown.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Richard Robinson, Martin Jones, Alan Pritchard, Iola Parry

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod dros Cwm y Glo, Ceunant a Pontrug ar Gyngor Gwynedd)

**Clerc:** Meirion Jones

**729. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod a diolchodd y cadeirydd am bresenoldeb yr aelodau

**730. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodir uchod

**731. Datgan buddiant personol.**

Eitem 745

Cais am gymorth ariannol

Y Sefydliad Coffa – Y Cynghorydd Goronwy Hughes

Eco'r Wyddfa - Y Cynghorwyr Goronwy Hughes, Hefin Jones a Beca Brown

Pan drafodwyd yr eitem yma, gadawodd y cynghorwyr Zoom

**732. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 15 o Rhagfyr 2020**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**733. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

Dim

**734. I dderbyn diweddariad sylwadau gan Gyngor Tref Nefyn ar greu pecyn ymwybyddiaeth iaith ar gyfer prynwyr tai yn yr ardal (Cyng Haf Williams)**

Dim gwybodaeth pellach wedi dod i law ond fod y cyngor wedi derbyn e bost yn gofyn iddo gefnogi llythyr wedi ddarparu gan Gyngor Tref Nefyn. Yn anffodus roedd y llythyr yn rhy hwyr i'w gynnwys ar agenda heno.

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth a cylchredeg y llythyr maes o law

**735. I dderbyn gwybodaeth gan Mr Emyr Pritchard, Cadeirydd Clwb Pêl droed Llanrug Unedig**

Derbyniwyd cyflwyniad gan Mr Emyr Pritchard, Cadeirydd Clwb Pêl droed Llanrug Unedig yn sôn am ei syniad i greu 'siop elusen' ar gyfer Llanrug. Nodwyd fod trefniadau cyffelyb yn y Felinheli, ble mae trigolion yn mynd ac hen ddillad neu offer i'r siop ac yna byddai'r siop ar agor ar ddyddiadau penodol. Adroddwyd fod y fenter yn y Felinheli, wedi codi oddeutu £20,000 yn y dair blynedd diwethaf. Mantais i hyn yw y byddai yn golygu byddai'r arian yn cael ei gadw yn y gymuned yn leol, yn hytrach na fod pobl yn mynd a'i cyfarpar i Fangor neu Gaernarfon. Nodwyd hefyd byddai yn gyfle i bob mudiad yn Llanrug ddod at eu gilydd.

**Penderfynwyd:** Diolchwyd i Mr Pritchard am ei gyflwyniad ac yn sicr roedd yn fenter byddai'r cyngor cymuned yn gefnogi. Byddai materion ymarferol angen ei datrys sef lleoliad y siop, lleoliad i storio nwyddau, trefnu casgliadau neu hysbysebion. Wrth gwrs oddi tan yr amgylchiadau presennol gyda Cofid-19, ni fyddai yn bosib gwneud dim ar hyn o bryd ond i ail edrych ar y cynllun pan fydd amgylchiadau yn caniatáu.

**736. I dderbyn adroddiad gan Bwyllgor y Fynwent**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Hefin Jones, Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent, fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 13 o Ionawr 2021. Ymysg yr eitemau a drafodwyd oedd fod y gwaith ar gyfer digideiddio'r fynwent yn parhau ac fod y clerc yn disgwyl hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r system.

Nodwyd fod y wal sydd yn bochio ar y ffordd i'r fynwent i'w weld ddim gwaeth ar hyn o bryd a'r wybodaeth dderbyniwyd gan arbenigwr oedd y gall ddisgyn yn y fuan neu gall fod yn iawn am flynyddoedd.

Nodwyd fod trefniadau ar y gweill i deulu osod mainc yn y fynwent er cof am ei anwyliaid.

Mae'r pwyllgor wedi penderfynu ei nod ac amcanion ar gyfer 2021 / 2022 fel a ganlyn

- Parhau gyda'r broses o drosglwyddo'r mynwent yr Eglwys yng Nghymru dan ofalaeth y cyngor cymuned;
- Cario allan asesiad risg;

- Trwsio’r wal;
- Digideiddio manylion y fynwent;
- Dal i gystadlu yn gystadleuaeth mynwent y flwyddyn
- Cadw golwg ar faint o ofod sydd yn y fynwent
- Ail edrych ar reolau a ffioedd y fynwent

A’r mater o ganiatáu defnydd o ‘drons’ ar gyfer recordio angladdau.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**737. I dderbyn adroddiad gan Pwyllgor Cyllid**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 18 o Ionawr 2021. Nodwyd siomedigaeth yn y nifer aelodau roedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Nodwyd fod y pwyllgor wedi ystyried y gyllideb ar gyfer y flwyddyn bresennol ac ble roedd angen unrhyw ystyried i wariant ychwanegol neu lai o wariant, fe addaswyd y gyllideb.

Roedd bwriad i drafod swydd ddisgrifiad y clerc ond oherwydd diffyg aelodau penderfynwyd peidio.

Addaswyd y gyllideb i ystyried y gost i’r cyngor ar gyfer y gampfa allanol i Cwm y Glo.

Adroddwyd gan y Cynghorydd Goronwy Hughes ei fod wedi bod mewn cyswllt a’r elusen ac mae’n hanfodol fod yr enw ‘Llanrug Poor House’ yn enw’r cyfrif banc, cyn y gallent rhyddhau’r arian. Nodwyd fod hyn wedi bod yn mynd ymlaen ers amser bellach ac yn sgil y trafferthion agor cyfrif gyda HSBC, efallai byddai o fydd cysylltu ac Unity Trust, sydd yn fanc pwrpasol ar gyfer mudiadau a cynghorau lleol.

Adroddwyd fod y Clerc a Cadeirydd y pwyllgor wedi mynychu HSBC unwaith eto i geisio trefnu bancio ar lein

Adroddwyd fod adroddiad yr archwiliwr allanol wedi dderbyn.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad a symud ymlaen i gysylltu ac Unity Trust i agor cyfrif.

**738. I dderbyn adroddiad gan Bwyllgor y Hamdden a Mwynderau**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Cemlyn Jones, Cadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 11 o Ionawr. Roedd yn falch o ddweud fod pawb yn bresennol. Hefyd yn bresennol oedd dau o gynrychiolwyr o gwmni 'Blachere' fyddai yn rhoi sylwadau / barn ar drefniadau goleuadau Nadolig ar gyfer 2021.

Trafodwyd gynnwys yr adroddiad blynyddol a byddem yn anfon holiadur cymunedol allan gyda'r holiadur. Ymysg yr eitemau i'r gynnwys yn y newyddlen oedd

- Gwaith mae'r cyngor wedi wneud yn ystod y pandemig, cinio dydd Sul, cynllun ffrind, gêl dwylo, ayyb
- Cystadleuaeth Nadolig
- Casglu barn y cyhoedd, megis materion traffig lleol
- Mwy o'r cyhoedd wedi gallu ymuno a'r cyfarfodydd ceisio adeiladu ar hyn;
- Clwb ieuenctid gallu ei gadw ar agor yn rhithiol
- Gwaith ar y caeau chwarae sicrhau eu bod yn ddiogel
- Aelod newydd wedi ei ethol
- Creu tudalen Facebook – ar hyn o bryd mae tua 500 o ddilynwyr
- Campfa awyr agored Cwm y Glo

Adroddwyd fod nod ac amcanion y pwyllgor ar gyfer 2021 / 2022 ac fod rhain yn seiliedig ar gynllun o gadw'n iach a hybu iechyd corfforol a meddyliodd

- Symud ymlaen gyda'r cynlluniau i newid trefniadau ar gyfer goleuadau Nadolig fel fod mwy o oleuadau ar hyd Llanrug;
- Symud ymlaen a campfa tu allan i Cwm y Glo;
- Ail edrych ar logo'r cyngor;
- Taclo materion parcio;
- Diffib i Ceunant
- Cynyddu i nifer o finiau yn Llanrug a Cwm y Glo

Etholwyd y Cynghorydd Dylan Jones fel aelod ychwanegol ar gyfer y Pwyllgor Hamdden a Mwynderau

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**739. I dderbyn diweddariad ar sefyllfa trosglwyddant cyfrifoldeb am fynwent Eglwys Saint Mihangel, Llanrug i'r cyngor.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Hefin Jones, fod y gwaith yn parhau ym mynwent yr Eglwys ac fod y criw lleol wedi bod yn brysur. O ran safbwynt y cyngor

cymuned, nodwyd fod llythyr wedi anfon at yr Eglwys yng Nghymru parthed perchnogaeth y tir ond ni allwn symud ymlaen o ochr trefniadau'r cyngor oherwydd nad ydym wedi gallu cario allan yr asesiad risg ar y fynwent. Oddi tan yr amgylchiadau presennol, ni ellir rhoi amcangyfrif pa bryd bydd hyn yn debygol o ddigwydd.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**740. I dderbyn diweddariad ar gynllun Fairshare**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Beca Brown fod y cynllun yn rhedeg yn dda gyda trefniadau wedi ei sefydlu nawr a pawb sydd yn cynorthwyo yn casglu'r bwyd a'i ddosbarthu. Mae pawb efo'i nifer penodol o dderbyniwyd. Nodwyd byddai yn fanteisiol ceisio targedu mwy o bobl yn enwedig y rhai sydd wedi colli gwaith neu fod eu oriau wedi lleihau ac o'r herwydd hyn wedi effeithio ar eu incwm.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**741. I dderbyn diweddariad ar faterion yn ymwneud a iechyd a diogelwch (Cyng Phillip Roberts). Mae polisi drafft ar gyfer iechyd a diogelwch wedi ei gylchredeg at bawb. Gofynnir i chwi anfon unrhyw sylwadau / addasiadau at y clerc erbyn 9fed o Chwefror 2021. Os nad oes gennych sylw yna a wnewch gysylltu yn cadarnhau hyn ogydd oherwydd disgwylir i'r polisi gael ei dderbyn a'i fabwysiadu gan y cyngor yn ei gyfarfod 16 o Chwefror 2021.**

Adroddwyd nad oedd polisi iechyd a diogelwch gan y cyngor ac fod y clerc a'r cadeirydd wedi creu enghraifft sydd wedi ei gylchredeg heno. Nodwyd bydd disgwyl i bob aelod fod wedi edrych ar y polisi erbyn cyfarfod mis Chwefror ac fod sylwadau neu os oes dim sylwadau yn cael ei anfon at y clerc erbyn

**742. I dderbyn adroddiad gan y Cyng. Berwyn Parry Jones ar weithgareddau Cyngor Gwynedd.**

**Cwmni Byw'n Iach**

Wedi bod yn gweithio hefo'r Awdurdod Iechyd er mwyn darparu neuaddau Hamdden i'r Bwrdd ddefnyddio er mwyn helpu hefo'r brechu. O bosib i fyny at 6 neuadd yn y gwahanol ardaloedd, ond ddim cynlluniau pendant eto.

**Cyngor**

Yn pwysleisio y pwysigrwydd o aros adref a dim ond gwneud siwrneiau hanfodol.

**Cyfarfod Cabinet cyn y Nadolig**

Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru.- Penderfynodd y Cabinet i gefnogi y syniad, Sir Conwy fydd yn lletya y fenter, yn dilyn broses gystadleuol. Fydd y 6

sir Gogledd Cymru, Y Bwrdd Iechyd, Gwê a'r Cymdeithasau Tai hefyd yn rhan o'r Bartneriaeth. Mwy o wybodaeth a cynllun busnes llawn ar safle wê y Cyngor.

Trafodwyd yr ymgynghoriad ar gyfer creu Cyd Bwyllgor Corfforedig dros Gogledd Cymru. Mae hwn i weld yn mynd a'r penderfyniadau yn bellach oddi wrth y bobol. Os caiff ei sefydlu, bydd yn delio hefo Trafnidiaeth, Cynllunio Strategol, Trefniadaeth Addysg a Datblygu'r Economi. Tipyn o fygythiadau o dynnu pwerau oddi ar Llywodraeth Leol.

**County Lines**

Bum ar gwrs gwybodaeth gan yr heddlu, oedd yn amlygu sut mae County Lines yn gweithio yn Gogledd Cymru, ac mor bwysig ydi gwybodaeth i'r heddlu, pethau fel ceir diarth wedi eu parcio mewn llefydd ar yr un amser o'r wythnos, pobol yn sefyllian ar gornel stryd neu tu allan i ysgolion, bwysig pasio'r wybodaeth ymlaen – y ffordd orau i wneud yw defnyddio "chat" ar wefan yr Heddlu.

**Yn Lleol**

**Gor yrru allt Ceunant**.

Erbyn hyn mewn trafodaeth gyda'r Awdurdod am y lle gorau i ail-leoli yr arwydd 30mya sydd ar hyn o bryd ar y gornel hanner ffordd i lawr yr allt.

**Penderfynwyd:** Derbyniwyd a diolchwyd am yr adroddiad

**743. I dderbyn adroddiad ar drefniadau goleuadau Nadolig ar gyfer 2021 ac i gymeradwyo cyllideb ar gyfer y gwaith paratoi a strwythurol**

Adroddwyd fod trefniadau ar y gweill i newid y drefn goleuadau Nadolig 2021. Y bwriad yw cael un cwmni i'w gosod, eu cynnal a chadw a'i casglu wedyn. Mae'r pwyllgor hamdden wedi cael sawl cyfarfod gyda cwmni sydd yn arbenigo yn y math o weithgareddau ar gyfer cynghorau tref a chymuned ac fod trafodaethau ar y gweill gyda Cyngor Gwynedd i allu gosod cyfarpar ar lampau. Gofynnir i'r cyngor gymeradwyo cyllideb ar gyfer 2021. Bydd costau cychwynnol ar y cynllun i osod strwythurau ar y lampau ond dim ond costau bydd y costau yma. Nodwyd yn ogystal bydd y cyngor yn cysylltu a busnesai ac unigolion i holi os buasai rhywun yn hoffi cyfrannu neu noddi addurniad.

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth a cymeradwywyd cyllideb cychwynnol o £5,500

**744. I ystyried cwynion yn ymwneud llwybrau cyhoeddus**

Adroddwyd fod cwyn wedi dderbyn am gyflwr llwybr yn rhedeg o gyfeiriad yr Eglwys hyd at Barc Carafannau Tyn y Coed.

**Penderfynwyd:** Cyfeirio'r mater tuag at Swyddog Llwybrau, Cyngor Gwynedd

**745. Ceisiadau am gymorth ariannol**

**a) Eco'r Wyddfa**
**b) Y Sefydliad Coffa**

**Penderfynwyd**: Cymorth Ariannol fel a ganlyn i'r ddu fudiad uchod

Eco'r Wyddfa - £800
Y Sefydliad Coffa - £2500

Gyda nodyn i'r mudiadau hyn gyflwyno eu cais yn y dyfodol ar y ffurflen briodol ac i ofyn am adborth o sut mae'r cyfraniad wedi bod o fudd iddynt.

**746. I bennu praesept ar gyfer 2021 / 2022**

**Penderfynwyd:** Praesept ar gyfer 2021 / 2022 fydd £60,000

**747. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C21/0007/23/DT

**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ

**Bwriad:** Proposed works to include the demolition of an existing concrete pre-fab garage forward of the principle elevation of Tan Rhiw, and replacing the structure with an enlarged single story en-suite bedroom annex suitable for disabled/impaired mobility use in order to support elderly relatives.

**Ymgeisydd:** Francois Jack Otter

**Cyfeiriad:** Tan Rhiw, Cwm Y Glo, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4DH

**Cyfeirnod Grid:** 254996.54, 362597.8

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais ond yn mynegi pryder sm y datblygiad yn y dyfodol pe bai ddim yn cael ei ddefnyddio fel y bwriad ar y cais cynllunio.

b) **Rhif y Cais:** C20/1100/23/LL

**Math o Gais:** Cais Llawn

**Bwriad:** Ail-leoli adeilad amaethyddol ar gyfer cadw da byw a wrthodwyd o dan gais rhif C19/0430/23/LL ac ar apêl

**Ymgeisydd:** Ioan Doyle

**Cyfeiriad:** Pen Y Buarth Lôn Groes, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4AF

**Cyfeirnod Grid:** 253735.16, 363832.41

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

c) **Rhif y Cais:** C20/1067/23/DT

**Math o Gais:** Cais Deiliad Tŷ

**Bwriad:** Estyniad deulawr ar dalcen gorllewinol y tŷ

**Ymgeisydd:** Mr a Mrs D Roberts

**Cyfeiriad:** Tyddyn Alys, Cwm Y Glo, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4EA

**Cyfeirnod Grid:** 254472.03, 362701.37

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

**748. I benderfynu os yw Cyngor Cymuned Llanrug yn caniatáu defnydd o recordio a / neu ddarlledu byw o angladd o'r fynwent**

Adroddwyd fod rhai ymgymerwyr yn cynnig gwasanaeth i recordio angladd yn fyw a'i ddarlledu ar gyfer ffrindiau a theuluoedd sydd yn methu bod yn bresennol yn y fynwent oherwydd y cyfyngiadau presennol drwy ddefnydd o 'drone'. Mae'r pwnc yma wedi drafod gan Bwyllgor y Fynwent a'r penderfyniad o'r pwyllgor oedd i'w gyfeirio i'r cyngor llawn oherwydd ei natur sensitif.

**Penderfynwyd:** Peidio a caniatáu defnydd o 'drones' yn y fynwent.

Daeth y cyfarfod i ben am 21:30

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 16 Chwefror 2021